# Our Bright Future:
# Papur Dysgu 6



## POBL IFANC MEWN SWYDDOGAETHAU LLYWODRAETHU:

OUR BRIGHT FUTURE – LLWYDDIANNAU A'R HYN A DDYSGWYD

**Partneriaeth uchelgeisiol ac arloesol dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur oedd Our Bright Future. Fe'i hariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – noddwr gweithgareddau cymunedol mwyaf y Deyrnas Unedig. Dyma raglen o 31 o brosiectau a gynhaliwyd rhwng 2016 a 2021, a oedd yn dod â'r sector amgylcheddol a'r sector ieuenctid at ei gilydd. Nod gyffredin y prosiectau, a oedd yn amrywio o brosiectau lleol i rai cenedlaethol, oedd grymuso pobl ifanc (rhwng 11 a 24 oed) i arwain newidiadau amgylcheddol yn y dyfodol.**

Dyma rai o weithgareddau'r prosiectau: cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol; ennyn eu diddordeb mewn hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith; eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol eu hunain yng nghyswllt materion amgylcheddol; a'u helpu i gychwyn eu mentrau cynaliadwy eu hunain.

Mae'r dystiolaeth yn y papurau hyn wedi cael ei chasglu fel rhan o broses werthuso Our Bright Future. Lluniwyd y papurau gan ddau gwmni gwerthuso – Economic Research Service Ltd (ERS) a Collingwood Environmental Planning (CEP) – er mwyn gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r rhaglen a chael dylanwad ar ddarpariaeth yn y dyfodol.

## Cyflwyniad

Roedd Our Bright Future yn rhoi pwyslais ar roi cyfle i bobl ifanc arwain mewn sefydliadau. Nod y papur hwn yw rhannu'r dylanwad a gafodd hynny ar gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu ac arwain yn y sefydliadau oedd yn rhan o raglen Our Bright Future. Mae'n trin a thrafod sut gallai ymwneud â'r rhaglen fod wedi dylanwadu ar brosesau sefydliadol ar gyfer cynnwys pobl ifanc mewn prosesau arwain a gwneud penderfyniadau. Gallai hyn fod wedi cynnwys sefydlu 'fforymau', 'byrddau' neu 'baneli' ieuenctid ar lefel sefydliad, y tu hwnt i'r rhai oedd â chysylltiad uniongyrchol â phrosiectau Our Bright Future.

Gellir dweud bod strwythurau a phrosesau sefydliadol sy'n derbyn arweiniad gan bobl ifanc, ac yn cynnwys pobl ifanc mewn trefniadau llywodraethu, yn rhoi cyfle iddynt fod yn rhan o waith arwain a gwneud penderfyniadau o fewn y sefydliad, ac i gael cymorth i wneud hyn.

Drwy gyflwyno'r hyn a ddysgwyd fel rhan o raglen Our Bright Future, y gobaith yw y byddwn yn gallu helpu eraill i ddatblygu swyddogaethau tebyg yn eu sefydliadau nhw, gan roi cyfle i bobl ifanc arwain a chael eu cynnwys mewn prosesau llywodraethu.



## A yw Our Bright Future wedi arwain at fabwysiadu cyfleoedd i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu?

Mae dros hanner sefydliadau partner Our Bright Future wedi sefydlu strwythurau neu brosesau sy'n cynnwys pobl ifanc mewn gwaith llywodraethu neu'n rhoi cyfle iddynt arwain – neu maent yn bwriadu gwneud hyn.

Mae prosiectau Our Bright Future wedi llwyddo i ddarparu llwybrau ffurfiol i alluogi pobl ifanc i fod yn rhan o brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar lefel prosiect a/neu sefydliad, ac mae hyn yn rhywbeth sydd wedi datblygu wrth i'r rhaglen fynd rhagddi. Roedd rheolwyr prosiect yn teimlo y bydd hyn yn waddol hollbwysig ar ôl i'w prosiectau ddod i ben.

**Yn gyffredinol, dywedodd 19 o sefydliadau a oedd yn rhan o Our Bright Future eu bod wedi sefydlu strwythurau i gynnwys pobl ifanc i fwy o raddau ym mhrosesau llywodraethu eu sefydliad, neu'u bod yn bwriadu gwneud hyn.**

**Yn ôl mwy na thraean o'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg, roedd strwythurau i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu wedi cael eu sefydlu neu'u gwella o ganlyniad uniongyrchol i fod yn rhan o raglen Our Bright Future.**

> Mae gweld ein Cyngor Ieuenctid yn datblygu, yn tyfu ac yn cael dylanwad ym mhob rhan o'n sefydliad wedi trawsnewid pethau i ni. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyngor ym mis Ionawr. Erbyn mis Rhagfyr, roedd aelodau o'r Cyngor Ieuenctid yn rhan o gyfarfod yr Ymddiriedolwyr. O fewn 12 mis, mae'r sefydliad yn awyddus i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd fwy cynhwysol, sy'n hynod o gyffrous.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

Dyma enghreifftiau o sut mae sefydliadau wedi/ yn bwriadu cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu ac arwain:

- **Pobl ifanc yn rhoi mewnbwn ar benderfyniadau ynghylch strategaethau a gweithgareddau, er enghraifft drwy swyddogaethau ffurfiol fel ymddiriedolwyr ieuenctid ac aelodau o baneli a grwpiau llywio, ac ar fforymau ieuenctid a byrddau cynghori ieuenctid**
- **Pobl ifanc yn cynllunio ac yn cyflwyno digwyddiadau, uwchgynadleddau a gweithdai**
- **Pobl ifanc yn arwain grwpiau a rhaglenni ar gyfer pobl ifanc**
- **Cysylltu â phobl ifanc ynglŷn â phenderfyniadau llywodraethu e.e. drwy waith ymgynghori â phobl ifanc a grwpiau ffocws**
- **Pobl ifanc yn rhan o benderfyniadau am recriwtio, er enghraifft, ar baneli cyfweld**
- **Pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn gwaith cynllunio prosiect**

## Sut mae Our Bright Future wedi helpu sefydliadau i sefydlu prosesau a strwythurau i gynnwys pobl ifanc mewn gwaith llywodraethu

Mae'r anogaeth a'r gefnogaeth a roddodd rhaglen Our Bright Future wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu. Mae wedi rhoi hwb i'r cymhelliant oedd yno'n barod i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn sefydliadau'r prosiectau. Mae hybu pwysigrwydd 'llais pobl ifanc' fel rhan o Geisiadau Polisi Our Bright Future hefyd wedi annog sefydliadau i fwrw ymlaen â hyn.

**O ganlyniad i weithio gydag Our Bright Future, mae rhai sefydliadau'n rhoi prosesau a strwythurau ar waith i gefnogi hyn yn uniongyrchol, er enghraifft:**

> ...mae (ein sefydliad) wedi gwneud yn siŵr bod arweinwyr amgylcheddol ifanc yn rhan ganolog o'n sefydliad o ganlyniad i ddatblygu a chyflwyno (prosiect Our Bright Future).
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Rhan o'n nod yw cael mwy o effaith a datblygu pŵer ar y cyd o fewn y grwpiau o bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw.
>
> **UWCH REOLWR PROSIECT**

> Diolch i lwyddiant Our Bright Future, rydyn ni'n cychwyn Prosiect Ieuenctid newydd, gyda phobl ifanc ar y pwyllgor llywio.
>
> **RHEOLWR CYNLLUN**

> Yn sgil y rhaglen, fel un o brosiectau Our Bright Future, mae gennym bellach gronfa o gyn-aelodau ifanc yr ydym wedi cysylltu â nhw ynghylch elfennau (o'r Rhaglen Ieuenctid newydd).
>
> **HYFFORDDWR YMGYRCH IEUENCTID**

> Mae'r datblygiadau allweddol a welwyd ers i ni gychwyn [y prosiect Our Bright Future] wedi cynnwys cyflogi aelod arbennig o staff i ganolbwyntio ar ddatblygu cyfranogiad pobl ifanc [yn ein sefydliad] a hybu pŵer pobl ifanc mewn materion amgylcheddol.
>
> **HYFFORDDWR YMGYRCH IEUENCTID**

Rhoddodd Our Bright Future yr anogaeth i ni roi lle amlwg i lais pobl ifanc. Fel un o'r 3 Cais, rydym wedi cael y golau gwyrdd i fwrw ymlaen â hyn yn ein sefydliad. Anogaeth ddi-dor Tîm Our Bright Future wnaeth ein helpu i gadw ffocws ar hyn. Rhoddodd y gallu i ni fentro a rhoi cynnig ar bethau nad oedd yn digwydd yn ein sefydliad ni. Roedd adroddiadau Our Bright Future yn atgyfnerthu'r pethau hyn hefyd.

**UWCH SWYDDOG PROSIECT**

Un llwyddiant allweddol o ran rheoli'r prosiect fu'r berthynas a ddatblygwyd rhwng (ein sefydliad ni) a (sefydliad portffolio arall). Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd i gydweithio...

**RHEOLWR PROSIECT**

**Sut mae Our Bright Future wedi helpu sefydliadau i sefydlu prosesau a strwythurau i gynnwys pobl ifanc mewn gwaith llywodraethu Parhad**

Roedd rhaglen Our Bright Future hefyd yn gwneud yn siŵr bod gan staff sgiliau a hyder, a oedd yn help i sefydlu a chyflwyno cynlluniau eraill lle'r oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn prosesau llywodraethu. Amlygwyd y gallu i rwydweithio, cydweithio a dysgu hefyd gan brosiectau eraill. Drwy'r rhaglen, cafodd sefydliadau gyfleoedd i ddysgu gan brosiectau eraill a chael eu hysbrydoli ganddynt, gan rannu syniadau a'r gwersi a ddysgwyd.

Roedd gallu ffurfio rhwydweithiau a phartneriaethau cydweithredol gyda sefydliadau eraill Our Bright Future yn help i sefydlu prosesau a strwythurau lle'r oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn gwaith llywodraethu ac yn cael cyfle i arwain. Er enghraifft, gwelwyd bod rhannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd gyda sefydliadau/prosiectau eraill Our Bright Future oedd eisoes yn cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu – ar ffurf cynghorau ieuenctid er enghraifft – yn fuddiol wrth sefydlu'r strwythurau a'r prosesau hyn mewn mannau eraill.

Roedd cwrdd â phrosiectau a sefydliadau eraill Our Bright Future oedd eisoes yn rhoi pwyslais ar gynnwys pobl ifanc yn eu gwaith, a chydweithio â nhw, yn sicr yn ysbrydoliaeth.

**AELOD O STAFF PROSIECT**

Rhoddodd cefnogaeth gan raglen Our Bright Future gyfle i rai sefydliadau dreialu prosesau a dulliau newydd i weld beth oedd yn addas i'w sefydliad nhw. Roedd cyflwyno prosiectau llwyddiannus drwy raglen Our Bright Future, oedd yn rhoi pwyslais ar adael i bobl ifanc arwain y ffordd, yn dangos pa mor fanteisiol oedd rhoi mwy o le i bobl ifanc ym mhrosesau llywodraethu eu sefydliad.

Mae Our Bright Future wedi cael dylanwad enfawr [ar ein sefydliad ni], er enghraifft, drwy glywed am waith rhaglenni partneriaid a chlywed gan ymddiriedolwyr ifanc fel rhan o'r seminar flynyddol. Mae cael adrannau o'r adroddiadau i'w llenwi'n rheolaidd yn helpu i wneud yn siŵr bod hyn yn aros yn flaenllaw yn ein meddyliau.

**RHEOLWR RHAGLEN**



## Galluogwyr sydd wedi deillio o raglen Our Bright Future


- Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ynghylch pa mor werthfawr yw cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu
- Rhoi'r sgiliau a'r hyder i staff sefydlu eu prosesau a'u strwythurau eu hunain i gynnwys pobl ifanc mewn gwaith llywodraethu
- Cyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill ac i rannu profiadau, syniadau ac adnoddau
- Cydweithio rhwng alumni/pobl ifanc i adnabod a sefydlu cyfleoedd newydd yn eu sefydliad opportunities within their organisation
- Deall yr angen i ddylunio strwythurau o gwmpas amgylchiadau lleol, anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc
- Pobl ifanc yn gweld gwerth swyddogaethau llywodraethu a gwneud penderfyniadau
- Darparu amgylchedd i gymryd risg a rhoi cynnig ar ddulliau newydd fel sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol
- Rhoi sbardun ar gyfer gwella ymrwymiad sefydliadol i gyfranogiad pobl ifanc

## Sut mae pobl ifanc wedi elwa o fod yn rhan o brosesau llywodraethu?

Yn gyffredinol, roedd Sefydliadau Our Bright Future yn gadarnhaol iawn ynghylch sut yr oedd pobl ifanc yn elwa o gael eu cynnwys ym mhrosesau llywodraethu sefydliadau. Dyma rai o'r canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc:

- **Magu hyder**
- **Meithrin sgiliau arwain**
- **Gwerthfawrogi gwaith tîm**
- **Cael profiad gwaith**

Er enghraifft, drwy ddysgu sut oedd sefydliadau'n gweithio; cael gwell gwybodaeth a mwy o sgiliau; a datblygu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a beth allan nhw ei wneud i sicrhau gwahaniaeth cadarnhaol.




> Mae rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sut i ddelio â swyddogaethau llywodraethu yn werthfawr tu hwnt, nid yn unig ar gyfer eu dyfodol nhw, ond ar gyfer dyfodol ein hamgylchedd naturiol hefyd. Maent wedi cael cyfle i ddysgu sut mae sefydliadau'n gweithio drwy fynd i gyfarfodydd, helpu i drefnu digwyddiadau, manteisio ar gyfleoedd i gysgodi ein Prif Swyddog Gweithredol a llawer iawn mwy. **Mae hyn wedi datblygu eu sgiliau personol fel y gallant eu defnyddio mewn addysg a phrofiad gwaith yn y dyfodol, yn ogystal â datblygu eu hymwybyddiaeth o faterion a phroblemau lleol, cenedlaethol a byd--eang.**
>
> SWYDDOG EIRIOLAETH IEUENCTID

## Astudiaeth achos person ifanc: Ellie, Yorkshire Dales Millennium Trust

Dechreuodd Ellie gymryd rhan yn **Green Futures** ar ôl dod i noson i ymgynghori â phobl ifanc am y prosiect, yn ystod y cam datblygu ym mis Rhagfyr 2014.

A hithau newydd raddio o'r brifysgol gyda gradd MSc mewn Bioamrywiaeth a Chadwraeth, roedd Ellie yn chwilio am gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol lleol, a dechreuodd ymwneud â phrosiect **Green Futures.** Drwy ddod i adnabod staff Yorkshire Dales Millennium Trust (YDMT), daeth Ellie yn Hyfforddai Graddedig rhan-amser gyda thîm codi arian yr Ymddiriedolaeth, ac yn ystod yr hyfforddeiaeth daeth hefyd yn gynrychiolydd ieuenctid ar Grŵp Llywio **Green Futures.**

A hithau wir wedi mwynhau ei rôl fel aelod o **Grŵp Llywio Green Futures**, ac yn awyddus iawn i ddal ati i gyfrannu at waith ehangach YDMT, cysylltodd Ellie â Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr i holi a fyddai modd iddi gymryd rhan yn yr ochr yma o bethau. Cytunodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol i roi cyfle i Ellie ddod yn Ymddiriedolwr gyda YDMT, a derbyniodd hithau'r cynnig yn frwd. Erbyn hyn, mae Ellie yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd yr Ymddiriedolwyr, yn trafod materion ac yn gwneud penderfyniadau am y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rheoli. Ellie sy'n cynrychioli'r Ymddiriedolwyr ar **Grŵp Llywio Green Future** (ar ôl iddi orfod 'ymddeol' fel person ifanc ar ôl cyrraedd 25 oed), ac mae hi'n cyflwyno penderfyniadau panel grantiau'r Gronfa Gweithredu Amgylcheddol i Bobl Ifanc i'r Ymddiriedolwyr eu cymeradwyo. Yn ogystal â hyn, mae Ellie wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu strategaeth YDMT, Mae Ellie yn is-set o Ymddiriedolwyr sy'n parhau i ddatblygu strategaeth YDMT. Mae hi hefyd wedi bod yn rhan o weithgor yn arallgyfeirio'r bwrdd ymhellach ac yn recriwtio ymddiriedolwr ifanc arall. Felly mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cyfeiriad y mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd iddo. , gan wneud byd o wahaniaeth i'r cyfeiriad y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dewis mynd iddo.

Yn ogystal â chael mwy o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau, mae'r cyfleoedd y mae Ellie wedi'u cael drwy **Green Futures** wedi rhoi hwb aruthrol i'w hyder. Maent wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddi sut y gall hi wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r amgylchedd, yn lleol ac yn fyd-eang, ac wedi gwneud iddi gredu bod y gallu ganddi i wneud gwahaniaeth.

Boed hynny drwy helpu i dynnu sylw eraill at faterion amgylcheddol a'u hannog i wneud eu rhan er budd yr amgylchedd, neu drwy siarad ag eraill sydd â'r pŵer i wneud gwahaniaeth mawr (e.e. gwleidyddion neu Ymddiriedolwyr a staff elusennau amgylcheddol), erbyn hyn mae gan Ellie yr hyder i wneud hyn oll, a bydd yn gwneud hynny bob cyfle. Mae'n bleser ganddi fod yn rhan o fudiad cynyddol o bobl sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

> Wedi i'r cyngor ieuenctid ddod i ben ar ôl y flwyddyn gyntaf, doeddwn i ddim eisiau gorffen felly dyma fi'n cofrestru ar gyfer blwyddyn arall. Wedyn daeth covid-19, felly dyma fi'n penderfynu ei bod hi'n amser i mi gymryd cam yn ôl a defnyddio'r sgiliau roeddwn i wedi'u dysgu i fod yn fwy annibynnol a chyfrannu at rannau eraill o'r Ymddiriedolaeth. Erbyn hyn, dwi 'di penderfynu bod yn barcmon mewn gwarchodfa...fyddwn i ddim wedi cael y cyfle i ymuno â'r cyngor ieuenctid heb brosiect MyPlace.
>
> **YMDDIRIEDOLAETH NATUR SWYDD**
>
> **AELOD O'R CYNGOR IEUENCTID**

### Sut mae sefydliadau wedi cael budd o gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu?

**Mae sefydliadau sy'n cynnal gweithgareddau gyda neu ar gyfer pobl ifanc yn gallu elwa drwy gael gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc, y problemau a'r heriau y maent yn eu hwynebu, a beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae cael cynrychiolwyr ieuenctid mewn trefn lywodraethu sefydliadol yn ffordd effeithiol o wneud hyn, gan ei fod yn rhoi llais i bobl ifanc i helpu i siapio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Roedd y sefydliadau a oedd yn rhan o'r arolwg yn nodi bod cael pobl ifanc yn rhan o brosesau llywodraethu eu sefydliadau yn help i glywed llais pobl ifanc neu'n eu galluogi i wrando ar beth oedd ar bobl ifanc ei eisiau. Roedd gadael i bobl ifanc gymryd yr awenau ac arwain digwyddiadau a oedd wedi'u hanelu at bobl ifanc yn llwyddiannus hefyd.**

> Mae cynnwys pobl ifanc ym mhrosesau gwneud penderfyniadau sefydliad yn gallu cael effaith gadarnhaol, gan fod pobl ifanc yn cynnig syniadau newydd, ac mae eu blaenoriaethau a'u safbwyntiau'n wahanol. Maen nhw hefyd yn gallu herio'r ffordd mae'r sefydliad yn ymgysylltu â phobl ifanc, felly mae'n dod yn haws i bobl ifanc ymwneud â'r sefydliad.
>
> **ELLIE BROWN, YORKSHIRE DALES MILLENNIUM TRUST, YMDDIRIEDOLWR IFANC**
> (CANLLAWIAU ARFERION DA, CYNNWYS POBL IFANC MEWN PROSESAU LLYWODRAETHU)

Yn gyffredinol, roedd sefydliadau'n bositif iawn ynghylch y gwerth yr oedd cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu yn ei ychwanegu at eu sefydliad, a’r rhaglenni neu’r prosiectau yr oedd yn eu darparu. Roedd y ffaith bod gan bobl ifanc safbwyntiau gwahanol/llai traddodiadol ar strategaethau busnes yn un fantais, ac roedd pobl ifanc yn adnodd wrth arwain ymgyrchoedd penodol.

Gall cynnwys pobl ifanc ym mhrosesau llywodraethu sefydliadau gael effaith gadarnhaol ar wella cynwysoldeb ac amrywiaeth mewn sefydliad hefyd. Roedd un sefydliad yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o sut mae croestoriadedd ac amrywiaeth yn effeithio ar eu gwaith, ac yn teimlo y byddai'n dda o beth cael barn pobl ifanc ar y pethau y gellid eu gwneud i fynd i’r afael â hyn.

## Beth yw’r heriau i sefydliadau wrth gynnwys pobl ifanc yn eu prosesau llywodraethu?

Roedd **sicrhau digon o arian** a chapasiti yn un rhwystr rhag cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu. Roedd sicrhau'r amser i ymdrin yn briodol â threfniadau i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu a chefnogi’r gwaith o gyflwyno hyn yn dipyn o her.

Gall **oresgyn gwrthwynebiad mewnol neu heriau o ran integreiddio effeithio** ar lwyddiant wrth gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu sefydliadol. Gallai hyn fod ar lefel ymarferol ond gallai fod yn berthnasol i ddiwylliant sefydliad. Er enghraifft, “ffitio Ymddiriedolwr ifanc i mewn i gyngor sydd wedi’i sefydlu, lle mae’r aelodau eraill dipyn hŷn o bosib” neu “cael pobl eraill i adael i bobl ifanc arwain ar rywbeth”.

**Hygyrchedd**. Nodwyd bod mynediad ar-lein wedi helpu i wella mynediad i rai. Soniwyd am dalu costau teithio i bobl ifanc hefyd fel ffordd o oresgyn rhwystrau hygyrchedd i ambell un. Mynegodd un sefydliad fod y bobl ifanc oedd eisoes yn rhan o’u cyngor ieuenctid gyda “chysylltiadau da” yn barod, gydag ambell un yn Aelodau Seneddol ifanc ar hyn o bryd.

**Gofynion amser ar bobl ifanc.** Yn aml iawn, mae gan bobl ifanc lawer o bethau'n galw, o ran amser ac argaeledd, sy'n gallu arwain at drosiant uchel ar adegau. Ar ben hyn, mae’n rhaid i sefydliadau ddelio ag amrywiaeth o ffactorau sy’n cymell pobl ifanc. Gall hyn arwain at amrywiol lefelau o lwyddiant wrth gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu o’i gymharu â ffyrdd eraill o gynnwys pobl ifanc. Er enghraifft, roedd rhai pobl ifanc yn awyddus i ymgysylltu mwy ar dasgau cadwraeth ymarferol yn hytrach na phrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae’r canfyddiad hwn yn adleisio themâu a drafodwyd yn y Papur Dysgu: Ennyn Diddordeb Pobl Ifanc. **https://www.ourbrightfuture.co.uk/about/our-impact/**

## Sut mae sefydliadau wedi cael budd o gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu?

- Help i ddeall/gwrando ar beth mae ar bobl ifanc ei eisiau
- Help i wneud yn siŵr bod lleisiau ifanc yn cael eu clywed
- Pobl ifanc yn cyfrannu safbwyntiau gwahanol/llai traddodiadol at waith cynllunio busnes
- Adnodd ychwanegol – e.e. pobl ifanc yn arwain ymgyrchoedd
- Pobl ifanc yn arwain digwyddiadau
- Gwell cynwysoldeb ac amrywiaeth

> Mae Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn wedi bod yn ceisio canolbwyntio mwy ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Yr hyn sy’n wych am y cyngor ieuenctid yw ei fod yn gwneud sgyrsiau am y pwnc yn rhywbeth hollol arferol. Mae cwestiynau am hunaniaeth o ran rhyw a rhywedd yn normal ac yn agored iawn, er enghraifft, sut mae rhywun yn dymuno i bobl eraill gyfeirio ato. Fyddai hon ddim yn drafodaeth y byddem ni wedi arfer ei chael yn yr Ymddiriedolaeth Natur, ond mae’n dod drwy’r Cyngor Ieuenctid, ac mae’n normal. Mae wedi gweddnewid pethau i ni.
>
> **PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL, YMDDIRIEDOLAETH NATUR SWYDD GAERHIRFRYN**

## Pa gymorth y mae angen i sefydliadau ei gael i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu yn y tymor hwy?

Gall darparu adnoddau ar gyfer prosesau a strwythurau llywodraethu newydd sy'n cynnwys pobl ifanc, a'u cadw, fod yn her. Dyma rai heriau y soniodd sefydliadau amdanynt: gwybod sut i gael adnoddau ar gyfer prosesau llywodraethu sy'n cynnwys pobl ifanc yn yr hirdymor; a cholli staff allweddol pan oedd arian prosiect Our Bright Future wedi dod i ben, a oedd yn golygu nad oedd cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu yn rhywbeth oedd yn cael ei gefnogi neu ei wreiddio ar lefel sefydliadol rhagor. Yn aml iawn, efallai y bydd angen cymorth ar sefydliadau i ddatblygu capasiti ac adnoddau ar gyfer sefydlu a chynnal trefniadau i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu yn y tymor hwy.

Roedd y mathau canlynol o gymorth/adnoddau yn werthfawr wrth helpu sefydliadau i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu yn eu sefydliad a'u hannog i aros. Fodd bynnag, mae angen mynd o'i chwmpas hi mewn ffyrdd gwahanol ar gyfer gwahanol amgylchiadau lleol, anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc. Mae adnoddau/cymorth gwerthfawr yn cynnwys:

- **Pecynnau/canllawiau ar arferion da ar gyfer cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu,**
- **Gweithdai sgiliau ar gyfer staff sefydliadau,**
- **Rhannu dysg/astudiaethau achos sefydliadau/prosiectau llwyddiannus eraill,**
- **Dysgu am brofiadau pobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o brosesau/strwythurau llywodraethu sefydliadol er mwyn helpu i ddeall sut mae cynnig cyfleoedd i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu, a'r rheini'n ennyn diddordeb pobl ifanc ac yn eu hannog i aros.**

> Mwy o gyfleoedd i glywed gan yr Ymddiriedolwyr ifanc eu hunain efallai. Eu profiadau, a sut aethon nhw ati i gymryd rhan ar y lefel honno. Weithiau gall fod yn anodd gwerthu hyn i bobl ifanc sydd ddim yn gyfarwydd â'r ffordd y mae elusennau'n gweithio.
>
> **RHEOLWR POBL A BYWYD GWYLLT**

Mae cymorth ac adnoddau fel y rhain ar gael yn barod, ac efallai y byddant o ddiddordeb i sefydliadau sy'n awyddus i sefydlu strwythurau neu brosesau llywodraethu lle mae pobl ifanc yn cael cyfle i arwain.  Er enghraifft:

- **Canllawiau Arferion da Our Bright Future ar gyfer Cynnwys Pobl Ifanc mewn Prosesau Llywodraethu Sefydliadol.**
- **Hyfforddiant am ddim, astudiaethau achos, hysbysebion di-dâl ar gyfer ymddiriedolwyr ifanc, a chyfleoedd i rwydweithio drwy'r Young Trustee Movement.**
- **Our Bright Future – Canllaw ymarferol i sefydlu ymddiriedolwyr ifanc yn eich prosesau llywodraethu.**



**https://ourbrightfuture.co.uk/wp-content/uploads/2020/09/Good-Practice-Guide-Putting-Young-People-in-the-Lead-V5.pdf**

**https://youngtrusteesmovement.org/**

## Astudiaeth achos sefydliad: Cyngor Ieuenctid Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn

Mae Cyngor Ieuenctid Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn (LWT) wedi bod ar waith ers tair blynedd ac mae'n cynnwys pobl ifanc rhwng 13 a 24 oed. Uwch Reolwr Prosiect MyPlace sefydlodd y cyngor ieuenctid drwy roi cynnig ar wahanol bethau a dysgu gan brosiectau eraill Our Bright Future wrth fynd ymlaen. Ar y dechrau, roedd pobl ifanc yn cael eu recriwtio drwy brosiect MyPlace, ond mae'r cyngor ieuenctid wedi datblygu'n fwy eang erbyn hyn.

Yn ôl Uwch Reolwr Prosiect LWT, fyddai'r Cyngor Ieuenctid ddim wedi digwydd o gwbl heb Our Bright Future: "Rhoddodd Our Bright Future y gallu i ni feddwl mewn ffordd wahanol am sut roeddem yn cynnwys pobl ifanc yn ein prosiectau". Roeddent hefyd yn dweud bod y rhaglen wedi bod yn ffordd wych o ddysgu gan brosiectau eraill, a bod hyn wedi bod yn allweddol i lwyddiant y Cyngor Ieuenctid. Dywedodd Swyddog Eiriolaeth Ieuenctid LWT na fyddai'r Cyngor Ieuenctid (na'r grŵp ymgyrchu sydd newydd gael ei sefydlu, Wilder Youth) wedi digwydd mor gyflym nac wedi dod yn brosiect mor fawr heb gymorth a dylanwad Our Bright Future. ***"Roedden nhw wastad ar gael i roi cyngor ac arweiniad, ac yn barod i wrando beth oedd y Cyngor Ieuenctid a Grwpiau Ieuenctid eraill wedi bod yn ei wneud".***

### Pwyntiau dysgu allweddol ar ôl rhoi Cyngor Ieuenctid ar waith:

- Un o'r llwyddiannau allweddol oedd cefnogaeth Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr o'r dechrau un, yn ogystal ag arweiniad da gan y Tîm Uwch Reolwyr a oedd yn awyddus i'r prosiect ddatblygu.
- Ni fydd pob person ifanc yn gallu gwirfoddoli am yr un faint o amser, ond mae gan bob un gryfder unigol ac maen nhw yno am reswm.
- Fel arfer, bydd mwy o bobl yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd ar-lein, ond mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gallu bod yn fwy effeithlon.
- Mae gwahodd timau uwch reolwyr, aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a staff eraill i gyfarfodydd chwarterol ffurfiol yn ffordd wych o ymgysylltu ar draws pob lefel lywodraethu. Mae hefyd yn ffordd ardderchog i staff weld potensial a manteision cynnwys pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau pwysig.

### Pa rwystrau neu heriau sydd wedi codi?

- Cyfyngiadau sy'n wynebu pobl ifanc o ran amser a llwyth gwaith. Mae llawer o aelodau cyngor ieuenctid LWT yn bobl ifanc llawn egni a brwdfrydedd, sy'n aml yn ymwneud â llawer o grwpiau a chynghorau gwahanol ac ati, ac yn ceisio dal swydd a/neu astudio yn y brifysgol. Gall ceisio cydbwyso'r cyfan gyda llwyth gwaith ac iechyd meddwl fod yn her wirioneddol ar brydiau.
- Cael cyfeiriad clir gan fod cymaint o gyfleoedd y gall y grŵp fanteisio arnynt.

### Pa gymorth all helpu cyngor ieuenctid i lwyddo?

- Cael aelod penodol o staff y gall bobl ifanc droi ato i gynnig syniadau a threfnu'r cyfleoedd iddyn nhw. Mae angen strwythur a rhywun yn eiriol dros y bobl ifanc o'r "tu mewn".
- Mae talu costau teithio pobl ifanc yn bwysig. Ond byddai'n dda o beth hefyd i gynnig arian am gymryd rhan e.e. os byddwch chi'n cymryd rhan gyda'r sefydliad am x awr, byddwch yn cael £x y chwarter. Dydyn ni ddim yn gwneud hynny, ond byddai'n syniad da ar gyfer y dyfodol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi llwyfan i bobl ifanc leisio'u barn, ac yna gwrandewch arnyn nhw. Os nad yw'n bosib cyflawni'r hyn y maen nhw'n dymuno ei wneud, cymerwch yr amser i eistedd i lawr a siarad gyda nhw am y peth.

## Ffactorau llwyddiant allweddol a gwersi a ddysgwyd

Mae'r papur dysgu hwn yn nodi nifer o ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant, a'r gwersi a ddysgwyd, wrth sefydlu trefniadau i gynnwys pobl ifanc ym mhrosesau llywodraethu sefydliadau a sicrhau bod y trefniadau hynny'n parhau:

- Mae cael pobl ifanc yn rhan o brosesau llywodraethu sefydliad yn help i wneud yn siŵr bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed ac yn galluogi sefydliadau i wrando ar yr hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau.
- Gall cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu sefydliadol gael effaith gadarnhaol ar wella cynwysoldeb ac amrywiaeth mewn sefydliad.
- Er y gall delio â gwrthwynebiad mewnol fod yn her, gall ennyn cefnogaeth gan staff allweddol e.e. cadeirydd y bwrdd ymddiriedolwyr, a/neu dimau uwch reolwyr helpu i sicrhau llwyddiant strwythurau a threfniadau i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu o fewn sefydliad.
- Gall sicrhau cyllid penodol i gynyddu darpariaeth sefydliad ar gyfer pobl ifanc hwyluso strwythurau a threfniadau ar gyfer cynnwys pobl ifanc mewn prosesau llywodraethu.
- Gall cael cysylltiad sy'n bodoli'n barod neu ffurfio cysylltiad newydd gyda phobl ifanc lleol helpu i recriwtio pobl ifanc.
- Gall datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau gyda sefydliadau eraill sy'n awyddus i wneud rhywbeth tebyg arwain at rannu dysg a chyngor ar arferion da.
- Mae cael/recriwtio aelod cyflogedig penodol o staff i ganolbwyntio ar eiriolaeth pobl ifanc/helpu pobl ifanc yn eu swyddogaethau llywodraethu yn gallu hybu llwyddiant.
- Mae'n bwysig adnabod rhwystrau o ran hygyrchedd a meddwl am ffyrdd o'u goresgyn, er enghraifft, talu costau teithio pobl ifanc er mwyn iddynt allu dod i gyfarfodydd.
- Mae'n bwysig cydnabod y bydd gwahanol bobl ifanc yn gallu cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd ac i wahanol raddau.